


4.4. Golygu Cynnwys - Mewn osod Tablau

Sylwer: Dim ond ar gyfer data y dylid defnyddio tablau; ni ddylid eu defnyddio fel ffordd o osod cynllun y dudalen.

1. Rhowch eich llygoden yn y man ar y dudalen lle'r hoffech osod y tabl.
2. Cliciwch ar y ddewislen 'Table':




3. Dewiswch pa fath o dabl rydych am ei ddefnyddio:

a. **Insert table with column headings**


Bydd hyn yn creu tabl newydd gyda rhes pennyn ar draws y top.

Dewiswch nifer y rhesi a'r colofnau drwy ddewis sgwariau yn y grid - symudwch eich llygoden ar draws y grid nes ei fod y maint cywir, yna cliciwch i fewnosod y tabl.



b. **Insert table with column and row headings**

Bydd hyn yn creu tabl newydd gyda rhes pennyn ar draws y top a cholofn pennyn ar y chwith. Dewiswch nifer y rhesi a'r colofnau drwy ddewis sgwariau yn y grid - symudwch eich llygoden ar draws y grid nes ei fod y maint cywir, yna cliciwch i fewnosod y tabl.



4. Bydd y tabl nawr yn ymddangos yn y golygydd, gyda thestun enghreifftiol yn y golofn/rhes pennyn:


Testing	Column 1	Column 2	Column 3	Column 4	Column 5	Column 6
Row 1						
Row 2						
Row 3						

5. Cliciwch ar y celloedd yn y golofn/rhes pennyn i roi eich testun eich hun yn lle'r testun enghreifftiol.

6. Cliciwch i mewn i'r celloedd gwag i ychwanegu eich data


7. Ar ôl dewis y tabl, mae opsiynau ychwanegol ar gael o'r ddewislen 'Table'. Mae'r opsiynau hyn hefyd ar gael mewn dewislen sydd ar gael drwy ddeglicio yn y tabl.

a. **Table properties** - gweld priodweddau'r tabl:



Sylwer: peidiwch â newid dim yn y fan hon os gwelwch yn dda, ac eithrio Alignment.

b. **Table caption/summary** - ychwanegu capsiwn a/neu grynodeb i'r tabl:



Gellir defnyddio **capsiynau** i helpu defnyddwyr i ddeall beth yn union yw'r tabl. Mae'r capsiwn yn cael ei arddangos mewn rhes lled llawn ar frig eich tabl, uwchben y rhes pennyn.


Gellir defnyddio **crynodeb** i roi gwybodaeth ynglŷn â threfn y tabl a sut i ddarllen y data. Mae'r crynodeb yn cael ei arddangos ynghyd â'r capsiwn, mewn rhes lled llawn ar frig eich tabl, uwchben y rhes pennyn.

	Monday	Tuesday	Wednesday	Thursday	Friday
9am	Cup of tea				
10am	Cup of coffee				
11am	Hot Chocolate				

c. **Delete table** - cael gwared â'r tabl.

d. **Cell** - gweld pob opsiwn ar gyfer cell:

- i. **Cell properties** - **peidiwch** â newid dim yn y fan hon os gwelwch yn dda, oni bai eich bod yn ychwanegu rhes pennyn at dabl.




- ii. **Merge cells** - os byddwch yn dewis mwy nag un gell cyn clicio ar hyn, bydd yn uno'r celloedd gyda'i gilydd i wneud un gell fawr.
- iii. **Split cells** - os yw eich llygoden mewn cell a grëwyd drwy uno celloedd, bydd hyn yn caniatáu i chi ei newid yn ôl fel yr oedd yn flaenorol, drwy rannu'r celloedd yn gelloedd unigol unwaith eto.

e. **Row** - gweld pob opsiwn ar gyfer rhes:

- i. **Insert row before** - mewnosod rhes newydd uwchben y rhes lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
- ii. **Insert row after** - mewnosod rhes newydd o dan y rhes lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.

- iii. **Delete row** - dileu'r rhes lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
- iv. **Row properties - peidiwch** â newid dim yn y fan hon os gwelwch yn dda, ac eithrio Alignment.



- v. **Cut row** - mae hyn yn dileu'r rhes lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd, ac yn ei rhoi yn y clipfwrdd fel y gallwch ei gludo mewn man arall.
 - vi. **Copy row** - mae hyn yn copïo'r rhes lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd, ac yn ei rhoi yn y clipfwrdd fel y gallwch ludo copi ohoni mewn man arall.
 - vii. **Paste row before** - mae hyn yn caniatáu i chi ludo rhes sydd wedi'i thorri neu ei chopïo uwchben y rhes lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
 - viii. **Paste row after** - mae hyn yn caniatáu i chi ludo rhes sydd wedi'i thorri neu ei chopïo o dan y rhes lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
- f. **Column** - gweld pob opsiwn ar gyfer colofn:
- i. **Insert column before** - mewnosod colofn newydd i'r chwith o'r golofn lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
 - ii. **Insert column after** - mewnosod colofn newydd i'r dde o'r golofn lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.

- iii. **Delete column** - dileu'r golofn lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
- iv. **Cut column** – mae hyn yn dileu'r colofn lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd, ac yn ei rhoi yn y clipfwrdd fel y gallwch ei gludo mewn man arall.
- v. **Copy column** – mae hyn yn copïo'r colofn lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd, ac yn ei rhoi yn y clipfwrdd fel y gallwch ludo copi ohoni mewn man arall.
- vi. **Paste column before** – mae hyn yn caniatáu i chi ludo colofn sydd wedi'i thorri neu ei chopïo i'r chwith i'r golofn lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
- vii. **Paste column after** - mae hyn yn caniatáu i chi ludo colofn sydd wedi'i thorri neu ei chopïo i'r dde i'r golofn lle mae eich llygoden wedi'i lleoli ar hyn o bryd.